

Traddodiadau Ardal Tremarchog

Dau gwestiwn i ddechrau:

- 1) Pa mor eang ydy ardal?
- 2) Beth yn gwmws ydy 'traddodiad'?

'Sdim bwriad, fan hyn, i geisio ateb un na'r llall o'r cwestiynau, dim ond dweud yn fras mai:

- 1) o ardal plwyfi Tremarchog, Treopert a Llanwnda y daw'r wybodaeth sy'n dilyn.
- 2) mae'r wybodaeth yn dod o erthyglau hen bapurau newydd, sgysiau llafar a llyfrau am hanes y fro. Ceir llyfryddiaeth ar y diwedd.

Mwynhewch!

Roedd yn arfer o gynnal te parti, unwaith y flwyddyn uwchben aber Porth Sychan a doi teuluoedd a ffrindiau at ei gilydd o ardal eang ar y diwrnod hwn. Mae'n bosib bod cysylltiad rhwng y traddodiad â'r pererindod y gwnai addolwyr i Gapel Degan, a safai uwch yr aber, slawer dydd.

Yn ôl y sôn, Sant Degan oedd un o'r pedwar a wnaeth ddianc wrth i Gantre'r Gwaelod suddo o dan y don. Daethant i Bencaer er mwyn canfod llonydd a thawelwch. Sefydlodd yr offeiriad, Degan, gartref meudwy yno. Doi pobl ato i'w gwella ac roedd dŵr o'i ffynnon yn dda at ddolur llygaid. Wedi ei farwolaeth, bu darn o'i wisg yn cael ei barchu fel crair crefyddol am gyfnod hir, cyn iddo gael ei werthu i bobl o bant, ac fe'u collwyd.

Y mae aelod o'r teulu Morse, fu'n byw yn Nhai Bach, uwch Borth Sychan, yn cofio cario dŵr o'r ffynnon er mwyn gwella llygaid ei hen famgu. Roedd yr hen wraig yn byw ym mwthyn North Pole, ac yn gofyn am y dŵr ar gyfer ei llygaid. Roedd ffydd ganddi yn ei allu i'w gwella.

Yn anffodus does dim o'r hen gapel i'w weld uwch Porth Sychan erbyn hyn, er bod y safle yn cael ei ddangos ar hen fapiau. 'Capel' ydy'r enw a ddefnyddir gan deulu Lewis, Tresinwen, am y darn tir lle y safai, hyd heddiw.

Yn ôl traddodiad, y ffermwr Mr Mortimer, yn Llanwnwr, oedd y cyntaf o'r ardal i weld llongau'r Ffrancwyr wrth iddynt hwylio tua Carreg Wastad yn Chwefror 1797. Er iddynt geisio twyllo wrth hedfan banneri Prydeinig ar y dechrau, roedd Mortimer yn ddigon hirben i sylwi mai llongau tramor oeddent, a rhybuddio'r fro.. Yn fuan wedyn, tynnwyd y banneri Prydeinig a chodwyd y 'Tricolour'. (1)

Roedd 'gwreca' (casglu tanwent o'r traeth wedi'r llanw) yn hen arfer yn yr ardal, a Phwll Deri, Pwll Crochan, Pwll Ddawnan a Cwm Felin yn lefydd cyffrous i fynd iddynt. Yn y 1950au a 60au, pan oedd cael 'sbin ar y motor beic' yn boblogaidd i ddynion ifanc ym mhob ardal, byddai gwreca ar Ddydd Nadolig, cyn cinio, ym Mhwll Deri yn 'owtin' i grwts o Abergweun.

Bu traddodiad am weithgarwch cyfrinachol yn digwydd ym Mhwll Deri, yn oriau'r nos adeg yr Ail Ryfel Byd. Ar y pryd, bu Gwyddeles yn byw yn y tŷ sydd erbyn hyn yn Hostel leuenctid. Bu tipyn o drafod bod signalau golau yn ymddangos rhwng y tŷ a llongau Almeinig oddi ar yr arfordir. Ni phrofwyd dim ar y pryd, ond yr oedd yn hollol bosib bod criwiau o longau tanfor yn mentro i aberoedd tawel lle roedd dŵr croyw ar gael, er mwyn ail lanw eu tanciau.

Wrth wreca, wedi'r rhyfel, daeth un gŵr bonheddig lleol o hyd i focs pren ar y traeth. Yn y boc roedd pâr o 'binoculars' o safon uchel. O fewn y clawr, 'sgrifennwyd enw y perchenog. Enw Almeinig oedd hwn.

Yn ôl traddodiad, carwyd môr-forwyn o Aber-bach i fferm Tresiysyllt. Wedi ei chario o'r môr, rhybuddiodd hi'r ardalwyr y byddai rhyw ddigwyddiad mawr yn cyffroi'r ardal os na fyddent yn ei dychwelyd i'r môr. Ac er mwyn achub rhag y perygl, dyna a wnaed. Dyma fersiwn J Howard Hughes o'r chwedl yn ei lyfr 'O Fryn Dioddef' a gyhoeddwyd yn 1966. Mae sawl fersiwn arall o'r stori ar gael. Bydd ambell un yn sôn am felltith y fôr-forwyn yn arwain at ddiffyg plant yn cael eu geni yn Nhresysyllt am ddegawdau.

Mae traddodiad i Drefaser gael ei enwi ar ôl yr Esgob Aser a ysgrifennodd hanes y Brenin Alfred. Ond nid Aser yw'r unig esgob i'w godi yn y cylch. Cafodd yr Esgob

John J A Thomas, Esgob Abertawe ac Aberhonddu yn y 1960au ei fagu yn Siop Trefaser. (1)

Mae'r biden yn cael yr enw o fod yn aderyn anlwcus mewn sawl ardal. Felly yr oedd pan y byddai plant y fro yn cerdded am yr ysgol yn Henner, ganrif yn ôl. Gwnaeth Dewi Emrys James, y bardd (a fagwyd yn Rhosycaerau) ysgrifennu am effaith y biden ar y daith hir ac unig o Rhosycaerau i Henner. Byddai Dewi a'i chwiorydd yn sgwrsio a chwarae gyda ffrindiau wrth iddynt gwrdd â nhw ar hyd y ffordd. Buan y byddent yn colli ar dreigl amser ac yn dechrau poeni. Gwyddent mai cosb y prifathro am fod yn hwyr oedd 'y gansen'. Roeddent yn ofni honno. Petai pioden yn digwydd hedfan ar draws eu llwybr, byddent yn dechrau rhedeg ar unwaith, gan gredu bod anlwc ar y ffordd. (8)

Dywedir mai gwas ar fferm y Gilfach, yn 1828, a ddaeth â'r llwyth cerrig cyntaf i adeiladu Capel Harmoni, Pencaer. Roedd cario cerrig ar gart a cheffyl yn waith trwm, ac erbyn iddo gyrraedd, yr oedd hi'n dri o'r gloch y bore! Ei enw oedd James George, a chai ei adnabod fel 'Shemi Harmoni' oherwydd iddo dreulio ei fywyd gerllaw y capel.(1)

Gwas arall ar fferm Gilfach, a fu'n byw yn 'North Pole' oedd William Edwards. Cyfansoddodd gerdd i gapel Tremarchog –

Mewn pentref bach mewn tawel fan,
Y saif y Capel tlws;
Bûm ynddo'n gwrando lawer tro
Gan eistedd wrth y drws.

Mae 7 pennill iddo. (1)

Yn Chwefror 1797, adeg glaniad y Ffrancod, dywedir i'r Parchg Henry Davies ddiodef ymosodiad ger ei gartref, Panteirig. Roedd yn weinidog ar Gapel Llangloffan ar y pryd, ond roedd yn dychwelyd o gyrddau mawr yn Rosebush, ardal

y Preselau. Cymrodd y milwyr ei oriawr wrtho, a'r hanner coron o dâl a gafodd yn Rosebush am bregethu. (1)

Traddodiad arall o gyfnod Chwefror 1797 yw i'r Ffrancod gael eu harwain i benrhyn Pencaer fel gweithred o atgasedd a dialedd gan un o feibion y fro. Ei enw oedd Johnny Williams, a chafodd ei alltudio i Ffrainc fel cosb am ddwyn dafad. Oherwydd hyn, roedd yn awyddus i dalu'r pwyth yn ôl, ac aeth ati i greu map o arfordir ardal Pencaer er mwyn hwyluso glaniad byddin y Ffrancod. Nid oedd ef yn aelod o'r fyddin, nac yn un o'r rhai a ddaeth gyda'r llongau. Â rhai mor bell a dweud fod Napoleon Bonaparte ei hun ar fwrdd un o'r llongau! (1)

Mae nifer yn gwybod am y chwedl am y milwr Ffrengig yn saethu at gloc Brestgarn. Ond, nid pawb sy'n gwybod mai y Parchg David Bowen oedd yn byw yno ar y pryd.

Ym mwthyn Cotts yr oedd mam a'i baban newydd anedig yn gorwedd pan ddaeth y Ffrancod yno. Gwnaed ddim niwed ganddynt.

Yng Nghaerlem, cafodd Mary Williams ei saethu yn ei choes wrth geisio ffoi a chafodd ei chamdrin. Derbyniodd benswn o £40 y flwyddyn wrth y llywodraeth am ei thrafferth, a bu'n fyw i'w fwynhau am dros hanner canrif wedyn.

Talodd y llywodraeth bron £1,000 o iawndal i'r ardal wedi goresgyniad y Ffrancod.

Bu'r milwyr yn llosgi a lladrata yn Eglwys Sant Gwyndaf, plwyf Llanwnda. Ceisiwyd gwerthu plâr cymun arian gan un ohonynt tray n y carchar yn Hwlfordd. Ceisiodd egluro mai Ffrangeg oedd y geiriau Lladin ar y plat. (2)

Pwy oedd Sisyllt o 'Dresisyllt? Un awgrym ydy fod ganddo gysylltiad â'r Sisyllt y cawsom ei hanes gan Gerallt Gymro tra ar ei daith trwy Gymru.⁴ Dyn ifanc oedd Sisyllt Goesau Hir yn cael ei boeni gan lyffantod. Roeddent yn bla ar ei fywyd. Clymodd ei ffrindiau Sisyllt mewn sach a'i hongian yn uchel er mwyn ei ddiogelu rhag y llyffantod. Er hyn, bu farw a chafodd ei goffau mewn cerflun bach o lyffant ar Fferm Trelyffant ger Trewyddel (3)

Lladd mochyn. Un gŵr lleol a fu'n cyflawni y gwaith hwn oedd y storiwr Shemi Wâd. Bu llawer eraill, cyn ac ar ôl Shemi yn bwtshwria. Mae yr awdur Llewelyn Jones, yn ei lyfr 'Schoolin's Log' yn sôn am y traddodiad ym mhentre' Tremarchog. Yn fras, dyma fyddai'r broses:

Un gyllell fach, fain ar gyfer y lladd gyda thoriad ar draws y gwddwg. Cyllell letach, yn fwy, ar gyfer y gwaith o dorri wedi i'r mochyn gael ei hongian o'r trawst a'i waedu. Byddai yr afu a'r arenau yn cael eu rostio, y ceilliau yn cael eu berwi i'r ffowls, a'r bledren yn cael ei gwagio. Cai ei chwythu'n fawr cyn gosod lasyn lleder i'w gau a'i rhoi i sychu. Byddai y 'bêl droed' hon yn ddigon gwydn i ddioddef gaeaf o gicio gan fechgyn y pentre.

Wedi delio gyda'r perfedd trwm, drewllyd gan wahanu popeth yn ofalus, byddai dŵr oer o'r ffynnon ar gael i olchi 'corpws' y mochyn. Rhoddid taten yn y geg er mwyn ei gad war agor.

Yr ail ddiwrnod, byddai y mochyn yn cael ei dynnu i lawr a'r gwaith o dorri a rhannu yn dechrau. Gwaith tri dyn oedd torri'r pen a'r traed, hanneri'r corf ar hyd yr asgwrn cefn gyda bwyell a thori'r darnau yn daclus.

Wrth neidio ar ei feic ar ddiwedd y gwaith, byddai gan y bwtshwr bump swllt o dâl a darn o gig i'w deulu. Byddai gweddill y mochyn yn cael ei ddsbarthu yn ofalus gan 'dalunôl' i ffrindiau am ddarnau cig a dderbyniwyd ganddyn nhw yn y gorffennol.
(7)

Mae carreg yn y feidir sy'n arwain o Brestgarn i Lanwnda sy'n foel o bob tyfiant haf a gaeaf. Mae'r cerrig o'i gwmpas yn fwswg i gyd, ac mae chwedl mai effaith..... sydd ar y garreg arbennig hon.

Mae Ysgol yr Henner, yn ôl y sôn, yn sefyll yn y fan lle daliodd Jemima Fowr ddeuddeg milwr Ffrengig, cyn eu gyrru i Abergweun. Bu tipyn o ymladd o blaid cael yr ysgol hon yn rhydd o reolaeth Eglwysig. Cyn ei hadeiladu roedd ysgolion cynnar yn cael eu cynnal yn Dan-y-Castell, ac yn Llanwnda ac yng Nghapel Harmoni. (1)

Dywedir bod gwraig dda iawn yn arfer byw yng Nghaerlem o'r enw Mrs James. Roedd yn awyddus helpu teuluoedd flawd yr ardal i addysgu eu plant ac roedd yn gefnogol iawn i ysgolion. Wrth weld bod diffyg dillad addas gan blant ar gyfer mynd

i'r ysgol, prynodd rowlyn o ddefnydd cynfas i'w dorri a'i wniö yn ddrillad iddynt. Mewn bratiau syml o waith Mrs James, Caerlem yr aeth nifer fawr i'r dosbarth am y tro cyntaf. (1)

Slawer dydd, byddai William a Mari Harries yn byw yn Ginon. Roedd William yn gapelwr mawr ac yn arfer canu emynau yr holl ffordd i'r 'Cwrdd' a'r holl ffordd adref. Bydwraig yr ardal oedd Mari, ac yr oedd yn gwasanaethu fel nyrs hefyd, pryd bynnag yr oedd angen. Sgrifennodd Arianglawdd gerdd chwe phennill er cof amdani. (1)

Roedd Martha Wiliam o Benffordd [rhwng Harmoni a Threfaser] yn wraig weddw dlawd iawn ar ddiwedd y 19eg ganrif. Roedd hyn ar adeg pan oedd y Wyrwys a 'byw ar y plwyf' yn anffodion yr oedd llawer yn eu hofni. Er mwyn cael dau ben llinyn ynghyd, byddai Martha yn gwau dros eraill. Byddai pelen o wllân yn cael ei anfon ati, ac mi fyddai hi yn anfon y sanau wedi'u gwau yn ôl. Ar un achlysur, fe gyrhaeddodd plentyn bach y drws gyda phêl o wllân mor fach nes bod Martha mewn penbleth sut i'w defnyddio o gwbl. Anfonodd y plentyn yn ôl at ei mam gyda'r ebychiad. 'Oedd eich mam yn meddwl, pe bai gwllân sbâr, y byddwn yn ei fwyta?' (1)

Ar y ffald yn Llanwnwr, y mae olion dau fedd. Yn ôl traddodiad, beddau dau filwr Ffrengid ydynt o 1797. Ar y llaw arall, y mae traddodiad bod capel, ar un adeg, yn Llanwnwr, ac o bosib, mae'r beddau yn perthyn i gyfnod cynharach.

Ffylliaid Llanwnwr. Mae hon yn hen chwedl ac mae yna lawer o fersiynau ohoni. Mae ffermwyr Llanwnwr yn prynu caws mewn ffair. Wrth fynd adref, mae'r caws yn cael ei ollwng a'i rollo i lawr yr allt. Mae'r ffylliaid yn dilyn, un ohonyn nhw'n neidio dros ben clawdd ac yn rhedeg yr ochr arall, fel sy'n cael ei wneud i fynd o flaen gwartheg. Mae'r caws yn cwmpo dros y dibyn. Mae'r ffylliaid yn cytuno y gallant fynd ato trwy i'r naill ddal gafael ar draed y llall. Pan fydd popeth yn barod, dywed y ffwl uchaf, 'Gadewch imi boeri ar fy nwylo,' ac i lawr maen nhw'n mynd. 5

Mewn fersiwn arall o'r stori, mae nhw'n gyrru stoc i'r farchnad yn Hwlfordd i'w gwerthu. Oherwydd y pellter, maen nhw yn trefnu cadw'r stoc dros nos mewn parc penodol, hanner ffordd ar hyd y daith. Ond yn lle aros gyda'r stoc, mae'r ffylliaid yn cerdded gartref i Lanwnwr ac yn gorfod codi yn gynt o lawer yn y bore er mwyn cerdded eilwaith am Hwlfordd.

Roedd gweithgareddau diwyllianol yn yr ysgol neu gapel yn draddodiad dros blynnyddoedd maith. Yn Eisteddfod neu 'Gwrdd Pishys' adeg y Pasg, byddent yn boblogaidd iawn. Ni ellir cynnig gwell blas ar y gweithgarwch yma na chynnwys adroddiad papur newydd yn crynhoi'r gweithgarwch.

26 Mai 1910 The County Echo

BETHEL, TREMARCHOG.

Y Llungwyn, cynaliodd Ysgol Sul y lle uchod ei gwyl llynyddol. Yn y prydawn, gorymdeithiwyd trwy y pentref, yn cael eu blaenori gan faner. Wedi hyn aed i'r ysgoldy, a mwynhawyd gwledd ragorol o dê a bara brith, a rhanwyd melusion rhwng y plant.

Dechreuwyd ar chwareuon diniwed y plant ar ol y te, ond aeth yn fellt, a tharanau, a gwlaw, a bu raid rhoddi hyny i fyny. Erbyn saith o'r gloch yr oedd yr ystorm wedi cilio, a daeth llond yr ysgoldy ynghyd i wrando llafurwaith yr ieuencyd. Aed drwy raglen helaeth, ond ni flinwyd gan neb ar y gweithrediadau gan mor ddyddorol oedd y cyfan. Yr arolygydd yw Mr S Mabe, ac arweinydd y gan yw Mr D Owen, Pwllcrochan. Mae clod mawr yn ddyledus i'r ddau frawd hyn am eu hymdrechion diymffrost, ond tra effeithiol. Llywydd y cwrdd oedd y boneddwr haelionus a gweithgar Mr W G James, Y.H., Llysyronen. Teilwng yw nodi ei fod ef a'i briod ragorol, Mrs James, yn gwneyd eu rhan yn ardderchog gyda phob mudiad daionus. Gwelsom yno hefyd Mr W R Williams, Egypt; Mr A B Williams, cyfreithiwr, Abergwaun a Miss Hill, o Llundain. Arweiniwyd y cwrdd a beirniadwyd y gystadleuaeth gan y Parch. W Rees (Arianglawdd), Harmoni.

Wele rhaglen y cwrdd :—

Adrodd Salm 24 Miss A Maddocks a'i dosbarth;

'Blant bychain, dewch at Iesu,' Willie John; 'Iesu'r Meddyg Da,' Hilda Roberts;

'Y gwenyn bach,' Sally Roberts;

'Bessie a'i dol,' Mary Rees;

'Teimlad yr amddifad,' Martha E Thomas;

Tôn gan y cor;

Dadl - 'Cystadleuaeth,' D Jenkins a Tom Lloyd

'Ofni'r fuwch,' Tom John.

'Dysg ni dewi gyda Aaron,' John Rees;

'Gweddi'r Plentyn,' Tom Rees;

'Ceffyl newydd Tom,' Willie Roberts;

Unawd, Martha John

'Tyner ydyw'r Iesu,' S J Mabe;

'Rwy'n caru hanes Iesu,' Wm. Owen;

'Gwell hwyr na hwyrach,' Maggie George 'Geneth fechan,' Hilda Roberts;

'Gair neu ddau ar Iesu,' E A Price,

Tôn gan y cor

Deuawd-'Clychau Aberdyfi,' H M Price a Maggie George;

Holwyddoreg gan Miss A Maddocks a'r plant;

Dadl - 'Y creadur symudiw,' D Rees a W Williams;

'Y Gwanwyn,' E Morse;

'Sesiwn yng Nghymru,' Arthur Davies

'Heddyw ac yfory,' E A Price

Unawd, Maggie Thomas

Dadl, 'Yr Iaith,' Edgar Morgans a John Williams;

'Efail Sior y Go' W Williams

Dadl, -'Y geiniog a'r pisin tair,' M A John a Maggie Thomas

Holwyddoreg gan Miss A Maddocks a'i dosbarth

Dadl - 'Rhanu'r deisien,' Dora George a E A Price

'Y Llong-ddrylliad,' W Roberts;

Tôn, J Morgan a'l barti, ond oherwydd anallu Mr J Morgan i fod yn bresenol,
cymerwyd ei le gan Mr J Roberts

Cynadledd - Plant y flwyddyn,

Parti W Roberts

Unawd, D Owen

Cystadleuaeth 'darllen ar y pryd'

-goreu, Miss MA John, Tremarchog

-ailoreu, Miss Maggie George, Cranged.

Darllen 'darn heb atalnodau'

- goreu, Mr W Roberts;

Araeth ddifyfyr, goreu Mr David Rees.

Wedi talu y diolchiadau arferol i'r boneddigesau am eu gwasanaeth gwerthfawr gyda'r te, ac hefyd i'r llywydd, arolygydd, arweinydd y canu, ac arweinydd y cwrdd, canwyd tŷn gan y côr, ac ymadawodd pawb wedi eu llwyr foddloni ar ôl prydawn dyddorol ac adeiladol yn mhob ystyr.

Mawrth 23ain, 1904 The County Echo.

TREMARCHOG. Eisteddfod.

Cynhaliwyd eisteddfod o dan nawdd Ysgol Sabbothol Bethel, yn yr Ysgoldy, nos Wener diweddf, ac fe gawd cyfarfod gwir lwyddianus yn mhob ystyr - y lle yn orlawn a chystadleuaeth fywiog mewn canu ac adrodd.

Yr Yswain o Llysyronen oedd yn llywyddu, ac fe wyr pawb ei fod ef bob amser yn gwneud ei waith mewn modd deheuig a chanmoladwy. Yr arweinydd oedd y Parch Ifan Davies, Llangloffan, ac ni wnaeth "Mabon" na "Gomer" erioed gwell gwaith mewn un eisteddfod. Yn clorianu y cerddorion oedd y galluog Perkins, o'r Hendrewen, un sydd yn deall ei waith i'r dim, ac yn ei wneud yn onest a chydwybodol. Gellir dweyd yr un pethau am yr enwog Arianglawdd, yr hwn oedd yn beirniadu yr adroddiadau, &c. Mrs James, Llysyronen, a Miss Lewis, Trellys, oedd beirniaid y prize bags, ac fe wnaeth y boneddigesau hyn eu gwaith i foddlonrwydd pawb.

Yr oedd y rhaglen a'r buddugwyr fel y canlyn-

Unawd i blant dan 12 oed, "Pan ddaw'r Iesu," Bessie Lawrence, Caersegan; ac Annie Mathias. New Mill.

Adroddiad i blant dan 12 oed, Ruth Maud Harries, Felindwarch, ac Elizabeth Higgon, Cranged.

Unawd baritone, "Pinacl Anrhydedd" Richard John, Tremarchog.

Syllebu, i blant dan 12 oed, Annie Mathias, New Mill; Tom Rees, Rhydyferem.

Prize bags, deg o gystadleuwyr, a gan nad oedd yno lawer o wahaniaeth rhwng tair o honynt, fe yc- hwanegodd y Cadeirydd 2s 6c at y wob, felly fe roddwyd tair gwobr fel y canlyn 1, Martha Ann Bowen, Tremarchog; 2, Annie Mathias, New Mill; 3, Phoebe A. Griffiths, Tresissillt.

Adroddiad i rai mewn oed, 1, David Owen, Tresissillt; y Cadeirydd eto yn rhoddi swllt at ail wob i Pollie Davies, Tresissillt.

Unawd soprano, "A yw f'enw i lawr;" Fe gawd cystadleuaeth dda ar y dernyn hwn, ac allan o dair fe ddyfarnwyd Mary Williams, Trevelgarn, yn oreu.

Darllen darn heb atalnodau, B. John, Trellys.

Unawd tenor, "Bwthyn bach rnelyn fy nhad," B. John, Trellys.

Deuawd, Y ddau forwr," B. a J. John, Trellys.

Spelling Bee i rai mewn oed, goreu J. D. Lewis, Trellys.

Yr oedd dau barti [yn cael eu harwain gan Mr J. D. Lewis, Trellys, a Mr B. Mathias, New Mill]-yn cystadlu ar y dernyn "Sychu y dagrau," y wob yn cael ei dyfarnu i barti Mr Mathias.

Wm Harries, Felindwarch, oedd y buddugol ar yr araeth fyr.

Talwyd y diolchgarwch arferol i'r Cadeirydd, Arweinydd a'r Beirniaid am eu gwasanaeth; hefyd i'r Parch Isaac Jones (rector) am fenthyg yr ysgoldy a Mr T. W. Jones (ysgolfeistr) am ei wasanaeth medrus fel cyfeilydd. Yr ysgrifenydd oedd Mr B. F. Mathias, New Mill, yr hwn a haedda glod am ei ymdrechion er gwneud y mudiad yn llwyddianus.—Diweddwyd y cyfarfod drwy i Mr B. John, Trellys, ganu "Hen Wlad fy Nhadau."

Cafodd William Morgan Evans, sylfaenydd y papur newydd 'Seren Cymru' ei eni yn Nhrellys y Coed ar Ragfyr 10fed 1822. Ei enw oedd William Morgan Evans. Ef oedd sylfaenydd y Carmarthen Weekly Reporter a'r Carmarthen Express ac yr oedd yn gyhoeddwr ar nifer o lyfrau ffeithiol a chrefyddol. Bu farw yng Nghaerfyrddin yn Nhachwedd 1884. 6

Ar ben pellaf traeth Abermawr, maesylfeini dau hen dŷ o'r gorffennol pell. Yn un o'r tai bu William a Phoebe Lewis yn magu teulu. Gwehydd wrth ei alwedigaeth oedd William, ac enillodd barch mawr fel gweithiwr da a gonest. Yr oedd ar y blaen ar holl weithwyr y gymydogoeth. Yn ôl y sôn, roedd ganddo garped o'r gwneuthuriad cywreiniad ar waith pan fu farw. Addurnid hon â rhai o'r ffigyrau prydferthaf. Bu William farw cyn gorffen ei waith ar hon, a methwyd cael yr un gwehydd arall yn yr holl ardaloedd yma i'w gorffen. Yr oedd y carped wedi ei bwriadu i addurno un o ystafelloedd gorau Plas Tregwynt. Ond nid fel gwehydd y cofir William yn bennaf. Ef ysgrifennodd sawl un o hoff emynau Cymru, sef:

'Pe meddwn aur Peru.'

Y mae trysorau gras.'

'Cof am y cyfiawn Iesu.'

'Mae enw'r addfwyn Oen.' ac yn y blaen.

Byddai yn cerdded pedair milltir i Langloffan ar gyfer pob 'Cwrdd', a phedair milltir yn ôl i Abermawr wedyn, ym mhob tywydd.

Mae'r traddodiadau sy'n ymwneud â dathliadau Brenhinol yn amrywiol iawn, ond mae adroddiad byr gan The County Echo ar gyfer 19 Mehefin 1902 yn nodi ymdrechion un dyn lleol i ddathlu coroniad y Brenin Edward VII -

'Yn Driwtwg, Pencaer, mae Mr James Rowe wedi codi postyn sylweddol ar y creigiau o flaen ei dŷ ger arfordir y môr ar gyfer 'y coronation'. Bydd baner wen heddwch yn cael ei hongian ohoni a bydd arwyddluniau eraill o fath gwladgarol hefyd yn chwifio yn awel y "coroni". (Fferm fach ger Penrhyn oedd Driwtwg, ar yr arfordir, o dan Trenewydd. Nid yw'n sefyll bellach.)

Roedd y teuluoedd oedd yn byw mewn bythynnod bach anghysbell uwchben y clogwyni slawer dydd, yn rhai mawr, ac roedd yn rhaid i famau fod yn ddyfeisgar yn y ffordd roeddent yn rheoli eu plantos. Ar un adeg, byddai'r wraig ym Mhenrhyn yn clymu ei phlant bach â rhaff i bostyn, fel geifr. Gall hyn ymddangos yn ormodol nes i chi sefyll ger y clogwyn wrth ymyl y bwthyn. Yna, mae'n hawdd gweld ei chymhelliad.

LLYFRYDDIAETH

- 1 J Howard Hughes - 'O Fryn Dioddef' a gyhoeddwyd yn 1966, Gwasg Gomer.
- 2 E H Stuart Jones - 'The Last Invasion of Britain' 1950.
- 3 H Thornhill Timmins - 'Nooks and Corners of Pembrokeshire' 1895
- 4 Giraldus Cambrensis - 'The Itinerary through Wales - 1188'. Dent, London 1908
- 5 T Gwynn Jones - 'Welsh Folklore and Folk Custom' 1930.
- 6 Seren Cymru - 21-11-1884
- 7 Llewelyn Jones - 'Schoolin's Log'. Michael Joseph Press, London. 1980
- 8 Eluned Phillips - 'Dewi Emrys'. Gwasg Gomer, 1971.